Cenn@d

GORFFENNAF 26 2023 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 126

# Yr Eisteddfod Genedlaethol – gweithgareddau'r eglwysi a mudiadau crefyddol

Ymhen ychydig ddyddiau bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn agor ei maes i'r cyhoedd ar gyfer wythnos o gystadlu brwd a chyfleoedd niferus i fwynhau a gwerthfawrogi perfformiadau gan ddoniau amlycaf Cymru. Bydd tystiolaeth yr eglwysi hefyd yn rhan o'r arlwy, ac yma mae Aled Davies yn crynhoi'r hyn fydd yn digwydd dros gyfnod yr Eisteddfod yn Llŷn ac Eifionydd rhwng 5 a 12 Awst eleni.

Ar drothwy wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol, pleser pur yw cael eich croesawu i'n cornel bach ni o Gymru yma yn Llŷn ac Eifionydd. Cynhelir y Brifwyl ar gaeau Bodfael ym mhentref Boduan, rhwng Pwllheli a Nefyn. Mae 'na fwrlwm rhyfeddol yn y fro ers wythnosau bellach, a'r pentrefi wedi bod yn brysur yn 'harddu' yr ardal â'u bynting, â sawl draig goch ac ambell archdderwydd (gan gynnwys un go iawn). Ac mae arwyddion 'Croeso' mawr ar ochr y ffordd i'ch cyfeirio'n ddiogel i ben eich taith.







Mae'r gwaith hefyd yn mynd rhagddo o drefnu pabell yr eglwysi o dan nawdd Cytûn ar faes yr Eisteddfod. Pabell yr eglwysi yw hi wrth gwrs, gan mai tystiolaeth Gristnogol yr eglwysi lleol sy'n cyfri. Bydd dros 200 o wirfoddolwyr o blith yr eglwysi hynny'n rhan o'r ymdrech i groesawu pobl i'r stondin. Rhannwyd dalgylch y Steddfod yn wyth ardal: Pwllheli; Botwnnog ac ardal Llŷn; ardal Chwilog a chanol Eifionydd; Cricieth a'r fro; Porthmadog a'r fro; cylch Caernarfon a Nantlle; cylch Bangor; ac ardal Bro'r Wyddfa.

Fe fyddwn ni yno rhwng 9 o'r gloch y bore a 6 o'r gloch yr hwyr dros gyfnod o wyth diwrnod i groesawu a chynnig lletygarwch: cadair i orffwys a chyfle am sgwrs ddifyr, paned o de neu goffi (neu ddiod oren), heb anghofio'r 'Welsh cecs' cwbl hanfodol. Fel arfer, bydd 5,000 ohonyn nhw sy'n cael eu bwyta o fewn y stondin mewn wythnos. A ddim jest fi sy'n eu bwyta nhw! Fe ddaw miloedd i mewn i'r babell i dderbyn o groeso'r eglwysi. Mae'n fraint bob blwyddyn cael croesawu pawb atom, yn bobl o bob ffydd neu heb ffydd – yr un fydd y croeso i bawb. A chofiwch, os byddwch chi'n dod i gyfeiriad Boduan, galwch mewn! Rydyn ni'n barod i'ch croesawu am sgwrs a phaned; bydd cyfle i brynu llyfr neu ddau – a rhaglen lawn o weithgareddau i bob oed.




## Gwaith plant

Ar gyfer y plant, fe fydd cornel yn llawn gweithgareddau. Bydd cyfle i adeiladu model Lego, â gwobr bob dydd o Feibl lliw i'r sawl fydd yn creu'r model gorau. Hefyd, bydd cyfle i wneud bathodyn, chwarae gemau fel Jenga, Knex, Connect 4 a model o Arch Noa. I'r rhai sy'n hoffi gwneud pethau mwy creadigol, bydd cyfle i wneud breichled, gwaith crefft a pheintio ffenestr liw, yn ogystal â gweithgareddau dyngarol dan ofal Cymorth Cristnogol, gan gynnwys gweithgaredd tynnu lluniau 'Bingo Byd-eang' â gwobrau i deuluoedd a phobl ifanc.

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

Cyrsiau Haf i blant a phobl ifanc yng Nghanolfan Coleg y Bala
Tudalen 5

*Gair ar Gân*, emynau i blant gan Gerald Morgan
Tudalen 7

*Rhedeg yr Yrfa* – lansio cyfrol ddiweddaraf D. Ben Rees
Tudalen 7

*Yr Eisteddfod Genedlaethol – gweithgareddau'r eglwysi a mudiadau crefyddol*
*(parhad o dudalen 1)*

## Yr enwadau a'r mudiadau

Mae'r stondin yn cynrychioli'r holl enwadau dan ymbarél Cytûn, yn ogystal â mudiadau fel Cymorth Cristnogol, Cymdeithas y Beibl a'r Cyngor Ysgolion Sul, a fydd yno i gyfarfod pobl er mwyn rhannu am eu mentrau a'u cenadaethau diweddaraf. Bydd cynrychiolwyr o'r enwadau'n galw i mewn, yn Ysgrifenyddion Cyffredinol, Llywyddion a gwirfoddolwyr o'r eglwysi lleol, yn barod am sgwrs dros baned.

Bydd Cymorth Cristnogol yno i rannu am sawl project yn ymwneud â gofalu am y greadigaeth ac effeithiau niweidiol newid hinsawdd, gan gynnwys ymgyrch arwyddo cerdyn 'Deffrwch! neu fydd 'na ddim coffi!' yng nghwmni'r artist Ffion Roberts-Drakley. Bydd sesiynau blasu coffi hefyd ar y stondin yn ddyddiol. Bydd Sian Wyn Rees o Gymdeithas y Beibl yno i sôn am Agor y Llyfr ar ei newydd wedd a'r ffaith fod Byd Mary Jones bellach wedi ailagor i'r cyhoedd, ac i sôn am gynlluniau diweddaraf y Gymdeithas.

Amcan y Cyngor Ysgolion Sul yn ystod yr wythnos fydd cynnal sgyrsiau efo arweinwyr lleol dros Gymru er mwyn trafod gwaith cenhadol i blant, a sefydlu gweithgarwch newydd lle mae ysgolion Sul wedi darfod erbyn hyn. Yn ôl yr arfer bydd dewis eang o lyfrau ac adnoddau, heb anghofio'r cardiau Nadolig newydd fydd ar werth gydol yr wythnos.



## Addoli

Bob dydd (heblaw dydd Sul) cynhelir oedfa yn y babell am 11 o'r gloch. Bydd yr oedfaon hyn yng ngofal arweinwyr ac eglwysi o ardaloedd penodol o fewn dalgylch yr Eisteddfod.


Bore Sul, 6 Awst, am 10 o'r gloch, cynhelir oedfa ym Mhafiliwn y Steddfod; ei thema fydd 'Pererindod'. Noder y bydd angen tocyn mynediad i'r maes arnoch, a bydd hynny'n caniatáu i chi fynd i'r pafiliwn ar gyfer yr oedfa ac aros ar y maes tan 10.30 y noson honno, os dymunwch. Bydd yr oedfa yng ngofal nifer o bobl y fro, dan arweiniad yr Archesgob Andrew John a'r Parch. Anna Jane Evans. Cofiwch hefyd am y Gymanfa Ganu yn y pafiliwn y noson honno; bydd angen tocyn arall ar gyfer cael mynediad i'r Gymanfa. Bydd hwn yn gyfle i glywed Côr y Gymanfa o dan arweiniad Pat Jones.

Bydd Crynwyr Cymru yn cynnal cwrdd addoli ar faes yr Eisteddfod, a hynny yn yr awyr agored ger Cylch yr Orsedd am 1 o'r gloch dydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener, a bydd yn para chwarter awr.

Nos Lun, 7 Awst, am 6 o'r gloch, cynhelir gwylnos dan nawdd Cymorth Cristnogol ym mhabell yr eglwysi dan arweiniad yr Archesgob Andrew John ac eraill. Bydd derbyniad a lluniaeth ysgafn i ddilyn – ac mae croeso i bawb.

Nos Iau, 10 Awst, bydd y Cylch Catholig yn falch o'ch croesawu i Offeren y Steddfod, a hynny yn Eglwys Sant Joseff ym Mhwllheli am 7 o'r gloch, gyda lluniaeth ysgafn i ddilyn.

Nos Wener, 11 Awst, am 6 o'r gloch cynhelir Gwasanaeth y Cymun Bendigaid ar Gân dan arweiniad Côr y Gadeirlan yn Eglwys Sant Pedr ym Mhwllheli.




Yn ystod yr wythnos cawn ambell ddatganiad ar y piano gan Meilyr Tomos, a fydd hefyd yn gwethu ei CD o emynau, a'r holl elw at waith Cymorth Cristnogol.

## Lansiadau


Bydd nifer o lyfrau yn cael eu lansio yn y Steddfod, rhai ohonynt ar stondin pabell yr eglwysi.

**Dydd Mawrth, 8 Awst, am 11.30 o'r gloch**
Lansio'r rhifyn cyfredol o *Gair y Dydd*, a chyfle i glywed myfyrdod y dydd yn cael ei ddarllen gan y cyfrannwr, sef Christopher Prew. Bydd *Gair y Dydd* ar werth yn y stondin, a chyfle i danysgrifio i'r cyhoeddiad hefyd.





**Dydd Mawrth, 8 Awst, am 2 o'r gloch**
Lansiad *'73'*, ffilm newydd o waith Gwyn Rhydderch sy'n olrhain hanes Duw ar waith mewn ffordd arbennig yn Llŷn ac Eifionydd ymhlith pobl ifanc yn ystod 1973. Nage, nid cyfarfod i griw o bobl yn eu saithdegau ydi hwn (er ei bod yn wir fod nifer o'r cyfranwyr yn eu saithdegau neu'n nesu at oed yr addewid!). Cyfle i glywed am waith Duw ym mywydau nifer helaeth o'r bobl ifanc oedd yn y colegau yn ystod saithdegau'r ganrif ddiwethaf yw hwn. Y gobaith yw y bydd cael ein hatgoffa o rodd ryfeddol Duw i Gymru yn ystod y cyfnod byr yma'n ein hysbrydoli a'n llawenhau o'r newydd.

**Dydd Mercher, 9 Awst, am 11.30 o'r gloch**
Dathlu cyhoeddi *Cysuro'r Claf – ysbrydoledd mewn ysbyty*, yng nghwmni'r awdur, y Parch. Eric Jones, Bangor; Dr John Williams, Lerpwl; a'r Parch. Athro John Tudno Williams yn llywyddu. O ble daeth yr ysbrydoliaeth i sefydlu ysbytai? A oes ystyr i'r ymadrodd, 'Dwi'n ysbrydol ond nid yn grefyddol'? Pa wahaniaeth a wna atgyfodiad y Crist croeshoeliedig i obaith y claf? Beth yw natur gofal ysbrydol yn ein hysbytai, yng nghyd-destun pobl o aml ffydd a phobl wrth grefyddol? Mae'r gyfrol fach hon yn cynnig atebion i gwestiynau mawr. Cyhoeddir gan Wasg y Bwthyn, a bydd ar werth yn y stondin.





(parhad ar y dudalen nesaf)

*Yr Eisteddfod Genedlaethol – gweithgareddau'r eglwysi a mudiadau crefyddol*
*(parhad o dudalen 2)*





**Dydd Iau, 10 Awst, am 11.30 o'r gloch**
Lansiad *Ffenestri Gobaith*, cyfrol o farddoniaeth Gristnogol o waith y bardd John Emyr. Bydd y gyfrol ar werth yn y stondin am £7.99. Cyhoeddir gan Gyhoeddiadau'r Gair.

**Dydd Iau, 10 Awst, am 11.30 o'r gloch**
Lansiad *Liliau Tân*, addasiad Arfon Jones o hunangofiant Dr Rhiannon Lloyd am ei hamser yn gweithio yn Rwanda. Bydd y gyfrol ar werth yn y stondin am £11.99. Cyhoeddir gan Gyhoeddiadau'r Gair.




**Dydd Gwener, 11 Awst, am 1.45 o'r gloch**
Lansio *Gwasanaethu'r Duw Byw*, cyfrol ar stiwardiaeth Gristnogol o waith Dafydd Andrew Jones. Cyhoeddir gan Gyhoeddiadau'r Gair.

**Dydd Gwener, 11 Awst, am 3 o'r gloch**
Lansio *Gofal ein Gwinllan: ysgrifau ar gyfraniad yr Eglwys yng Nghymru i'n llên a'n hanes a'n diwylliant* (gol.: A. Cynfael Lake a D. Densil Morgan) gan yr Eglwys yng Nghymru ym mhabell y Cymdeithasau 1. Y siaradwyr yno fydd yr Athro E. Wyn James, y Parchedicaf Andrew John, yr Athro D. Densil Morgan a Dr Eryn White. Croeso cynnes i bawb.




## Ymgyrchoedd ac apeliadau

cymorth cristnogol

**Dydd Mawrth, 8 Awst, am 11.45 o'r gloch**
Y Parch. Judith Morris o Undeb Bedyddwyr Cymru yn lansio'u hapêl enwadol at waith Cymorth Cristnogol.

**Dydd Mercher, 9 Awst, am 2 o'r gloch**
Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn lansio'u hapêl Cymorth Cristnogol i gefnogi gwaith yn Colombia.

**Dydd Mercher, 9 Awst, am 3 o'r gloch**
Sesiwn dan ofal Cheryl Williams i ddiolch am gyfraniad Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn dilyn eu hapêl 'Hadau Gobaith'; casglwyd £150,000 at waith Cymorth Cristnogol.

## Sesiynau a sgyrsiau

**Dydd Sadwrn, 5 Awst, am 12.30 o'r gloch**
Darlith flynyddol Fforwm Hanes Cymru: 'Capel Newydd Nanhoron ac Anghydffurfiaeth Gynnar Llŷn ac Eifionydd' gan John Dilwyn Williams. Pabell y Cymdeithasau 1.

**Dydd Llun, 7 Awst, am 11.30 o'r gloch**
Cyflwyniad gan Rebecca Elliot o Gymorth Cristnogol ar adnoddau 'Cymdogion Byd-eang' a fydd ar gael ym mis Medi.

**Dydd Llun, 7 Awst, am 2 o'r gloch**
Cyflwyniad ar yr 'Ymgyrch Colled a Difrod' gan y Parch. Andrew Sully yn dilyn ei daith feics ddiweddar o Gaergybi i Gaerdydd ar ran Cymorth Cristnogol.

**Dydd Llun, 7 Awst, am 5 o'r gloch**
'Llwyd ar y Du a'r Gwyn', darlith gan Alan Llwyd ar hanes Robert ap Gwilym Ddu a Dewi Wyn o Eifion ym mhabell y Cymdeithasau 1. Dau amaethwr, dau gymydog, dau fardd, athro a disgybl; ond o'r ddau fardd, un yn fardd aneisteddfodol a'r llall yn fardd eisteddfodol – y ddeufardd o Eifionydd. Trefnir y ddarlith hon gan Utgorn Cymru.



**Dydd Mawrth, 8 Awst, am 10.30 o'r gloch**
Darlith Flynyddol Adran Diwinyddiaeth Graddedigion Prifysgol Cymru, gan y Parch. Ddr Rosa Hunt, Cyd-brifathro Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd, yn neuadd y Cymdeithasau 2. Ei thestun fydd: '"Pobl ddieithr eu hiaith ac anodd eu lleferydd"? – cyfieithu, cymuned a chrefydd'. Darlith am y berthynas gymhleth rhwng iaith, cymuned a ffydd. Dadleuir dros ddwy dybiaeth sylfaenol: yn gyntaf, nad ydy'r ffydd Gristnogol yn bodoli heb iddi gael ei chyfieithu, ac yn ail, nad ydy hi'n bosibl cyhoeddi'r neges Gristnogol yn ffyddlon heb ei chyfieithu i idiom naturiol y diwylliant lleol.

**Dydd Mercher, 9 Awst, am 10.30 o'r gloch**
'Pedr Fardd, pwy awdwr fu, Mwy anwyl am emynu?' Dawi Griffiths yn trafod bywyd a gwaith yr emynydd Pedr Fardd (1775–1845). Darlith flynyddol Cymdeithas Emynau Cymru yn neuadd y Cymdeithasau 2.

**Dydd Mercher, 9 Awst, am 12 o'r gloch**
Sesiwn o dan gadeiryddiaeth Siôn Brynach ar ran Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn dwyn y teitl 'Heriau codi arian i'r trydydd sector yng Nghymru'.



(parhad ar y dudalen nesaf)

*Yr Eisteddfod Genedlaethol – gweithgareddau'r eglwysi a mudiadau crefyddol*
*(parhad o dudalen 3)*

**Nos Fercher, 9 Awst, am 7 o'r gloch**
Darlith goffa yn Eglwys Beuno Sant, Clynnog Fawr, er cof am y Parch. J. Lloyd Jones dan y teitl 'Dringo'r ail fynydd: y dyfodol i eciwmeniaeth yng Nghymru?' Y darlithydd fydd y Parch. Siôn Brynach, Prif Weithredwr Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru. Mae croeso i bawb i'r ddarlith arbennig hon.

**Dydd Iau, 10 Awst, am 2 o'r gloch**
Perfformiad o ddetholiad o ganeuon gan Gôr Cofnod o Gaernarfon. Croeso i bawb.

**Dydd Iau, 10 Awst, am 4 o'r gloch**
Darlith gan y Parch. Aled Edwards, 'Cyfraniad y Parch. Griffith Thomas Roberts, Congl y Meinciau', ym mhabell y Cymdeithasau 1. Dan nawdd Cymdeithas Hanes yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru

**Nos Iau, 10 Awst, am 7.30 o'r gloch**
Darlith gan John Aaron yn Festri Capel Penlan, Pwllheli, ar fywyd a gwaith y Parch. John Elias (1774–1841). "Ni fu ffigwr cenedlaethol a mwy o arwr-addoli arno ar y naill law ac o gamliwio rhagfarnllyd ar y llall, na John Elias o Fôn." Darlith i'n hatgoffa o wir fawredd John Elias fel pregethwr, ac edrych ar rai o'r rhesymau paham y bu cymaint o ddilorni arno.

**Dydd Gwener, 11 Awst, am 10 o'r gloch**
'Addoldai mwyaf nodedig Cymru?' Darlith Addoldai Cymru / Capel gan Dr Tanya Jenkins ym mhabell y Cymdeithasau 1.

**Dydd Gwener, 11 Awst, am 2 o'r gloch**
Sgwrs gan Siôn Brynach am waith Cytûn.

**Dydd Gwener, 11 Awst, am 2 o'r gloch**
Pryderi Llwyd Jones ar ran Cristnogaeth21 yn hwyluso sgwrs rhwng Aled Jones Williams a Cynog Dafis dan y teitl 'duw, Pantycelyn a Dyfodol Crefydd'. Trafodir dwy gyfrol: *Cerddaf o'r Hen Fapiau* gan Aled a *Pantycelyn a'n Picil Ni Heddiw* gan Cynog. Cynhelir ar stondin y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

**Dydd Gwener, 11 Awst, am 3 o'r gloch**
Côr y Gadeirlan yn cyflwyno detholiad o'u gwaith. Croeso cynnes i bawb ymuno.

**Dydd Sadwrn, 12 Awst, am 11 o'r gloch**
'O William Salesbury i William Morgan: y Dadeni yn Nyffryn Conwy?' Sesiwn yng nghwmni Gruffudd Antur, Peredur Lynch ac Eryl Owain. Cynhelir dan nawdd Tŷ Mawr Wybrnant, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ym mhabell y Cymdeithasau 1.

**Dydd Sadwrn, 12 Awst, am 2 o'r gloch**
Sesiwn dan ofal Awel Irene a chriw Heddwch Nain / Mam-gu. Gan mlynedd yn ôl, anfonodd 390,296 o fenywod Cymru ddeiseb at fenywod Unol Daleithiau America i roi pwysau ar eu llywodraeth i ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd. Eleni mae'r gist sy'n dal yr holl llofnodion wedi ei dychwelyd i'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Dyma ddechrau prosiect blwyddyn: inni olrhain hanes ein neiniau, dathlu eu gweithredoedd a chyfrannu at wireddu eu breuddwyd i greu byd mwy heddychlon a chyfiawn.



## Llwybr a phererindod Cadfan

Dan nawdd Esgobaeth Bangor, bydd llawer o sesiynau'n ymwneud â Sant Cadfan a llwybr pererindod y de o Dywyn, Meirionnydd, i Ynys Enlli, yn cael eu cynnal yn ystod yr wythnos. Cofiwch alw i mewn ym mhabell Pererin, drws nesaf i babell yr eglwysi ar y maes. Yno bydd mapiau cerdded, nwyddau ac arddangosfa o hanes rhyfeddol y sant ac eglwysi'r llwybr ynghyd â gweithgareddau i bob oed.

Sant Cadfan, 'Mewn Cymeriad' – dydd Sul, 6 Awst, am 3 o'r gloch; dydd Mawrth, 8 Awst, am 1.30 o'r gloch; dydd Iau, 10 Awst, am 3 o'r gloch; dydd Sadwrn, 12 Awst, am 3 o'r gloch. Yr actor Llion Williams sy'n portreadu Cadfan Sant ar ei bererindod gyntaf i Ynys Enlli o Dywyn. Cewch hanes y Llydawr o'r chweched ganrif ar ei daith i ynys yr ugain mil o saint.

**Dydd Mawrth, 8 Awst, am 12 o'r gloch**
'Pererindod Cadfan' – Siôn Aled, Sian Northey, Twm Morys, Gwyneth Glyn, ynghyd â beirdd gwadd eraill yn arwain pererindod hwyliog o amgylch y maes. Bydd yr eitemau cerddorol a llenyddol yn deillio o waith y prosiect llenyddol Llwybr Cadfan ac yn cael eu perfformio mewn lleoliadau gwahanol. Bydd y bererindod yn cychwyn gerllaw cerrig yr Orsedd ac yn gorffen ym mhabell Pererin, lle bydd cyfle i gyfarfod Cadfan Sant ei hun (ar ffurf yr actor Llion Williams), a'i weld yn cyflwyno monolog! Orig hwyliog fydd yn rhoi blas ar holl waith a naws y prosiect.




**Dydd Mercher, 9 Awst, am 1 o'r gloch**
'Llwybr Cadfan – dathliad mewn barddoniaeth a chân' ym mhabell y Cymdeithasau 1. Siôn Aled a Sian Northey, Twm Morys a Gwyneth Glyn yn ein harwain drwy gyfrwng cerddoriaeth a barddoniaeth ar daith ar hyd Llwybr Cadfan.

## Taith dywys

**Dydd Mawrth, 8 Awst, 10 o'r gloch; 11 o'r gloch; 12 o'r gloch**
Cyfle i ymweld â Chapel Newydd Nanhoron y canodd Cynan amdano fel y 'capel bach gwyngalchog / ym mhellafoedd hen wlad Llŷn'. Er yr enw 'newydd', mae'r capel yn dyddio 'nôl i 1769, ac wedi ei restru'n adeilad Gradd 1. Dyma'r enghraifft hynaf o gapel anghydffurfiol yng ngogledd Cymru sy'n dal i sefyll.

Taith dywys dan ofal John Dilwyn Williams, cadeirydd yr ymddiriedolaeth. Bydd yn para tua dwy awr, gan gynnwys y teithio 'nôl ac ymlaen o faes yr Eisteddfod. Bydd bws mini'n gadael prif fynedfa maes yr Eisteddfod ac yn eich cludo at ddrws y capel. I archebu lle ar y bws, bydd angen ffonio 01758 721777 ymlaen llaw, gan nodi eich dewis o amser i gychwyn ar y daith.

## Y Gorlan Gristnogol

Yn ôl eu harfer bydd criw o Gristnogion ifanc yn gweithio fel tîm y Gorlan, ac yn cyfarfod â phobl ifanc ar Faes B er mwyn cynnig cymorth ymarferol fel rhannu poteli dŵr a rhoi cyngor addas. Cofiwn amdanynt yn ein gweddïau wrth iddynt weithio oriau hwyrol ymhlith ieuenctid mewn gìgs yn y Steddfod.

Bydd digon i'w wneud ar y maes felly, o fore tan nos. Ac os byddwch yn dod i'r ardal am gyfnod estynedig, ag ychydig o amser i grwydro'r fro, bydd gennym erthygl arall yn rhifyn wythnos nesaf o *Cenn@d* gan yr hanesydd John Dilwyn Williams yn ein cyflwyno i rai o lecynnau ysbrydol arbennig y fro, o Ynys Enlli i gapeli hynafol megis Nanhoron a Chapel y Beirdd.

Cofiwch fod rhifyn newydd o *Cenn@d* yn cael ei gyhoeddi bob wythnos ar wefan cennad.cymru, ac ar gael i'w ddarllen a'i lawrlwytho – yn rhad ac am ddim.

# Cyrsiau Haf i blant a phobl ifanc yng Nghanolfan Coleg y Bala

Gyda'r ysgolion ar gau mae tîm Gwasanaeth Ieuenctid a Phlant EBC a gwirfoddolwyr o eglwysi eraill ar draws Cymru yn edrych ymlaen at groesawu llu o blant a phobl ifanc ar y cyrsiau hyn i'r Bala. Nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael, felly cysylltwch yn fuan os oes diddordeb gan unrhyw rai yn eich eglwysi ac ymrowch i ofyn i Dduw fendithio'r rhai fydd ar y cyrsiau hyn i gyd yr haf hwn.

**CWRS Ieuenctid 31 Gorffennaf–4 Awst**: i flynyddoedd uwchradd 7–10
Gwersyll haf i bobl ifanc yn llawn gemau, crefft, addoliad, sgyrsiau Beiblaidd, gemau dŵr, heriau gwallgof, noson yr ŵyl, a bydd taith i Flip Out Caer. Y gost yw £118 (1/2 pris am 2il/3ydd plentyn o'r un teulu), sy'n cynnwys yr holl fwyd, llety a gweithgareddau. Archebwch le heddiw fan hyn




**Anhrefn Awst 14–17 Awst**: i blant 8–11 oed
Archebwch heddiw fan hyn




**Souled Out 19–24 Awst**: i ieuenctid (15+), myfyrwyr ac oedolion
Mae Souled Out yn gyfle grêt ar ddiwedd yr haf i ddal i fyny gyda hen ffrindiau, cwrdd â phobl newydd a mwynhau llwyth o weithgareddau hwyl! Y prif sesiynau yw uchafbwynt Souled Out bob amser, wrth i ni addoli Duw a dysgu mwy amdano wrth wrando ar sgyrsiau o'r Beibl. Bydd rhai seminarau ymarferol yn ystod yr wythnos hefyd i'n harfogi a'n hysbrydoli, a grwpiau bach i'n helpu i feddwl drwy'r hyn rydyn ni'n ei glywed.

Bydd llwyth o bethau hwyl i bawb eu gwneud hefyd! Dros y blynyddoedd, rydyn ni wedi mwynhau *inflatables* mawr, caffi acwstig, gemau pêl-droed, crefftau creadigol, padlfyrddio, S'mores rownd y tân, a mwy! Felly, bydd digon o bethau i'w mwynhau eto eleni!

I'r rhai sy'n teithio o'r de neu o ganolbarth Cymru, ac os bydd digon o ddiddordeb, bydd bws mini yn cael ei drefnu am gost fach o £12 (£6 bob ffordd). Bydd gofal plant hefyd ar gael bob bore. **Cost yr wythnos yw** £128. Mae'r pris yn cynnwys y digwyddiad, bwyd, gweithgareddau a 5 noson o lety. (Os ydych am wneud eich trefniadau llety eich hun, neu am ddod am y dydd, cysylltwch â Choleg y Bala ynglŷn â'r gost o ddod i Souled Out.) Peidiwch â cholli allan! Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymuno â ni am haf i'w gofio yn SOULED OUT 23! Archebwch heddiw fan hyn.




**Os nad yw'n bosibl i chi archebu ar-lein neu os oes gennych chi unrhyw gwestiwn, plis cysylltwch â ni: colegybala@ebcpcw.cymru / 01678 520565, a gallwn ni bostio copi o'r ffurflen gofrestru atoch chi. Gallwch gael rhagor o fanylion a dolenni i'r cyrsiau a'r ffurflenni archebu ar wefan y Coleg: www.colegybala.org**

Ni ddylai talu am gwrs fod yn rhwystr i unrhyw un ddod. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'ch arweinydd lleol neu ag Angharad: Coleg y Bala, Ffordd Ffrydan, Y Bala, Gwynedd, LL23 7YB.

## Cyflwyno Beiblau yn Ysgol Bancyfelin

Pleser gan aelodau Capel Bancyfelin, ger Caerfyrddin, oedd cyflawni'r orchwyl flynyddol o gyflwyno Beibl yr un i ddisgyblion Blwyddyn 6 yn Ysgol Bancyfelin ddiwedd tymor yr haf. Cyflwynir y Beiblau bob blwyddyn er cof am y ddiweddar Miss Sallie Walters a fu'n aelod ffyddlon a gweithgar o Gapel Bancyfelin ac a oedd hefyd yn gyn-ddisgybl o'r ysgol.




## Gair o Gydymdeimlad

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Mrs Sian John, priod annwyl y Parchedig Denzil John, Caerffili, yn ystod y dyddiau diwethaf. Estynnwn ein cydymdeimlad i Denzil a'r plant, Luned ac Aled, a'u teuluoedd hwythau.

Mae Denzil wedi bod yn golofnydd rheolaidd i *Cenn@d* ers y cychwyn ac i *Seren Cymru* am dros 20 mlynedd cyn hynny, gyda Sian bob amser yn bâr diogel o lygaid craff cyn gyrru'r golofn i'w chyhoeddi. Coffa da amdani.

*Y golygyddion*

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 34 Dau dad, a dau unig fab (Rhan 1)

### Darllen: Genesis 22:1–24

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, t. 151)

Un o hanesion mwyaf cyfarwydd Genesis yw cynnwys y bennod y tro hwn. Rwy'n cofio'n iawn cael fy nysgu am yr hanesyn yma yn blentyn yn yr ysgol Sul, ond rwy'n methu cofio i ba raddau y gwnaeth Mrs Davies, ein hathrawes, geisio esbonio'r hanes wrthym. Yn wir, ar un olwg, mae yna rywbeth brawychus am yr hanes, ac erbyn hyn mae'n debyg y byddai'n perthyn, yng ngolwg llawer, i'r hanesion hynny nad ydych yn eu hadrodd wrth blant! Fel yn achos hanesion eraill, yr wyf am ddiogelu eto ein bod yn darllen y Beibl i gyd fel llyfr sy'n llyfr am Dduw, ac yn benodol yn llyfr am Iesu. Fe gofiwch imi ddyfynnu ymateb Iesu i'r Ysgrifenyddion droeon yn ystod y gyfres hon: 'Yr ydych yn chwilio'r Ysgrythurau oherwydd tybio yr ydych fod ichwi fywyd tragwyddol ynddynt hwy. Ond tystiolaethu amdanaf fi y mae'r rhain' (Ioan 5:39). Gyda'r allwedd yma yr wyf am edrych ar yr hanes dros y pythefnos nesaf.

Yn ei gyd-destun, mae'r hanes yn brawf o ufudd-dod Abraham, yn ei holi a yw'n parhau i ymddiried yn Nuw gan ei fod bellach wedi gweld sylweddoli'r addewid am fab. Mae'n siŵr fod amryw ohonoch ar eich gorau yn eich bywyd gweddi, yn y sylw y byddwch yn ei roi i air Duw ac i addoli Duw, yn ystod y cyfnodau hynny lle y byddwch yn disgwyl, yn ceisio, yn edrych am atebion i sefyllfa ddyrys. Beth am eich bywyd wedi derbyn ateb? Dyma'r cwestiwn sy'n cael ei osod i Abraham ac mae'n ateb y cwestiwn yn rhagorol. Yn wir, mae'r hanes, yn ôl un esboniwr, yn darlunio'r prawf hwn fel rhywbeth ddaeth ag Abraham i binacl arbennig yn ei ymddiriedaeth, yn hytrach na rhywbeth a chwalodd ei hyder yn naioni Duw.

Yn sgil y cais arswydus yma, rydym yn gweld cariad a ffydd yn llifo; down wyneb yn wyneb ag un sy'n tybio bod doethineb diwall yn 'ffolineb Duw'. Yn y lle yma mae hyd yn oed yn mynegi ei hyder yn y Duw sy'n medru atgyfodi'r meirw. Sylwch ar adnod 5, 'Arhoswch chwi yma gyda'r asyn; mi af finnau a'r bachgen draw ac addoli, ac yna dychwelwn atoch.' Nid camarwain y bechgyn sy'n digwydd yma, fel y dywed awdur yr adnodau yn Hebreaid 11, adnodau sy'n cyfeirio'n ôl at y digwyddiad: 'Trwy ffydd, pan osodwyd prawf arno, yr offrymodd Abraham Isaac. Yr oedd yr hwn oedd wedi croesawu'r addewidion yn barod i offrymu ei unig fab … Oblegid barnodd y gallai Duw ei godi hyd yn oed oddi wrth y meirw; ac oddi wrth y meirw, yn wir, a siarad yn ffigurol, y cafodd ef yn ôl.' (Hebreaid 11:17,19)

Wrth ddarllen geiriau'r prawf yn adnod 2 byddaf yn cael fy nharo gan her eithafol y cais, ond yr un pryd yn rhyfeddu at yr adlais clir sydd yma o fwriad Duw ei hun mewn perthynas ag Iesu: 'Cymer dy fab, dy unig fab Isaac, sy'n annwyl gennyt, a dos i wlad Moreia, ac offryma ef yno yn boethoffrwm ar y mynydd a ddangosaf iti.' Dyma fab yr addewid; dyma'r had fydd yn gyfrwng bendith; dyma'r rhodd arbennig a gwyrthiol, a dyma'r un y mae Abraham i'w offrymu.

Er nad wyf am ddechrau astudiaeth ar hanes Isaac, tybed faint rydych chi'n ei wybod am hwn? Mae'r disgwyl amdano'n cael mwy o le yn Genesis na hanes ei fywyd, a does ond tri pheth braidd y byddwn yn eu cofio: y digwyddiad hwn, y ffaith iddo ailagor ffynhonnau, a'r modd y cafodd ei dwyllo pan geisiodd Jacob y fendith ganddo. Yng ngeiriau Derek Kidner, 'Daw Isaac i ganol y llwyfan, nid oherwydd yr hyn y mae'n ei wneud ond beth mae'n ei ddioddef. Dyma ei ran, mae'n debyg, er ei fod yn ddigon di-nod o ran cyfraniad fel arall. Bydd eraill yn cyflawni rhyfeddodau; i hwn, does dim ond arddangos, fel dioddefwr tawel, y patrwm hwnnw ar gyfer yr had etholedig, patrwm o fod yn was sy'n cael ei aberthu.' A sylwch ar y lleoliad sy'n cael ei ddewis: 'dos i wlad Moreia'; yn y Testament Newydd, cyffiniau bryn Calfaria, ac ar y mynydd hwnnw, ganrifoedd yn ddiweddarach, mae Tad arall yn rhoi ei unig Fab.

Yn y cyfan, mae ymddiriedaeth Abraham yn cael ei rhoi ar un ochr i'r glorian, ac ar yr ochr draw y mae synnwyr cyffredin, cariad rhiant ac uchelgais bywyd. Roedd popeth yn milwrio yn erbyn ufudd-dod, a buan iawn y byddai wedi medru rhesymu bod yna wrth-ddweud yn y cais yma o'r nefoedd. Ond cofiwch, 'Yr oedd yr hwn oedd wedi croesawu'r addewidion yn barod i offrymu ei unig fab' (Hebreaid 11:17). Mae Abraham yn gwbl sicr bellach fod Duw yn ffyddlon, yn ddi-droi'n-ôl yn ei fwriadau, ac yn fwy nag abl i sylweddoli ei fwriadau, hyd yn oed pan fyddwn ni'n gweld olwynion ei ragluniaeth yn mynd i'r cyfeiriad anghywir. 'Felly cododd Abraham yn fore' – mae'n codi ar bwys ei hyder yn y Duw oedd yn ei alw i ufuddhau pan nad oedd ef efallai'n medru dirnad pen draw'r galwad.

1. Edrychwch eto ar emyn Pedr Fardd (*Caneuon Ffydd*, rhif 677):

   Rhagluniaeth fawr y nef, o'm plaid
   ei holl olwynion try,
   agorai'r môr, pe byddai raid:
   mae'r afael sicraf fry.

   Pa mor bwysig yw deall ffyrdd Duw? Beth fedrwn ei ddeall a beth fyddwn ni yn fwy na bodlon ei adael i ddoethineb diwall Duw?

2. Un mab oedd gan Abraham, ac un Mab sydd gan Dduw. Mae'r naill bron yn marw, y llall yn marw. Beth mae'r hanes yn eich dysgu am yr hyn mae Duw wedi ei wneud a'r hyn y mae hawl ganddo i'w ofyn?

3. Beth yw cyfrinach ufudd-dod, yn ôl yr hanes hwn?

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
Bydd y gyfres nesaf yn cael ei darlledu o fis Medi ymlaen

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 30 Gorffennaf, am 7:30yb a 4:30yp**

**Emynau ein prifeirdd: rhaglen 2**
R. Alun Evans yn bwrw golwg ar ragor o emynau gan rai o'n prifeirdd
**Sul, 30 Gorffennaf, am 12yp**
Oedfa dan ofal Aled Davies, Chwilog

# *Gair ar Gân*, emynau i blant gan Gerald Morgan


Newydd ei gyhoeddi y mae'r llyfryn hwn o emynau gan yr awdur, Gerald Morgan o Dregaron. Mae eisoes wedi cyhoeddi sawl llyfryn arall dros y blynyddoedd diwethaf hyn, ond dyma'r tro cyntaf, os cofiaf yn iawn, iddo gyflwyno inni lyfryn o emynau plant yn benodol.

Mae gennym ni yng Nghymru, wrth gwrs, draddoddiad hir a chyfoethog o ran emynyddiaeth, ac mae hynny'n cynnwys emynau i blant. Nid mor aml â hynny, ychwaith, y cafwyd yr emynwyr yn cyfansoddi tonau i'w hemynau. Ond dyna a ddigwydd yn hanes yr awdur hwn – ac yn wir fe geir yr un patrwm yn ei holl lyfrynnau. O glywed yr emynau'n cael eu canu gan blant ysgolion cylch Tregaron, sef Ysgol Henry Richard, Ysgol Pontrhydfendigaid ac Ysgol Rhos Helyg, mae yma gynhesrwydd swynol ac agosatrwydd gafaelgar yn y cyfan. Mae yma gyfansoddiadau a fyddai'n briodol i blant ym mhob rhan o Gymru, p'un ai mewn capel neu eglwys, ac, wrth reswm, mewn ysgolion. Byddai'r rhain, er enghraifft, yn eu benthyg eu hunain i'r dim i'r addoli ar y cyd a ddigwydd yn rheolaidd mewn ysgolion.

Mae emynau yma sydd wedi bod yn fuddugol mewn eisteddfodau, a gellir gweld pam. Ceir mynegiant uniongyrchol, teimladwy, ym mhob un o'r 12 emyn a gynhwysir yn y llyfryn. Mae'r mynegiant yn syml, yn hollol ddealladwy i blant, a'r arddull yn arddull lafar, bob dydd. Peth arall sy'n amlwg amdanyn nhw yw eu bod yn driw i'r Beibl, yn gwbl Grist-ganolog, ac yn efengylaidd eu natur. Fwy nag unwaith defnyddir dyfeisiau megis gosod y plentyn yn gymeriad yn yr emyn, yn gweld y croeshoelio mewn un enghraifft neu borthi'r pum mil mewn enghraifft arall, yn union fel petai'r plentyn yno yng nghwmni'r teulu. Mewn enghreifftiau eraill, eir at hanes plant y Beibl, megis Dafydd yn ei frwydr yn erbyn Goliath a Samuel yn y deml, fel y gall y plant sy'n darllen neu'n canu'r geiriau uniaethu â nhw. Defnyddir y dyfeisiau hyn yn effeithiol iawn. Nid oes byth gyfaddawdu yma â gwirioneddau'r Beibl, ac yn arbennig felly'r iachawdwriaeth sydd i'w chael yng Nghrist yn unig.

Wedi dweud hyn i gyd, mae ambell lithriad yn y llyfryn. Mae'r rhain weithiau'n llithriadau gramadegol, pethau fel "I ddod at ef ei hun" (yn lle "I ddod ato ef ei hun") ac "Ond am llef Anwylyd Duw" (yn lle "Ond am lef Anwylyd Duw"). Ambell waith mae llinell neu odl yma ac acw'n rhyddieithiol yn hytrach nag yn delynegol. Rhaid pwysleisio, serch hynny, mai mân frychau yw'r rhain, ac nid ydynt yn rhwystr rhag rhoi mynegiant clir i'r gwirioneddau mawr.

Mae'r gerddoriaeth wedyn yn adleisio – ac yn wir yn hyrwyddo – arddull yr emynau. Canlyniad hyn i gyd yw fod y tonau'n tueddu i ddilyn patrymau tebyg, ond maen nhw, bob un ohonyn nhw, yn syml, yn ddirodres,




ac o'u clywed ar y recordiau a gefais i, daw'n amlwg fod y plant wrth eu bodd yn eu canu. Gallaf gymeradwyo'r llyfryn hwn yn galonnog i chi.

*Gareth Jones*
*Llambed*

Gellir prynu'r llyfryn am £7.50, gan gynnwys cludiant, oddi wrth Gerald Morgan, Hafod Wen, Pwllswyddog, Tregaron, Ceredigion, SY25 6JG, neu drwy ebost: cyfrolau@yahoo.com. Bydd £5 o bob gwerthiant yn mynd i Gronfa Nyrsys Macmillan.

# *Rhedeg yr Yrfa* – lansio cyfrol ddiweddaraf D. Ben Rees



Elin Boyd, y Parch. Robert Parry, Dr John Williams, Norman Closs Parry, y Parch Ddr D. Ben Rees a'r Parch. Aled Davies


Cafwyd noson arbennig iawn yn Eglwys Bethel, Lerpwl, ar 10 Gorffennaf i lansio llyfr diweddaraf y Parch. Ddr Athro D. Ben Rees, sef *Rhedeg yr Yrfa*. Er ei fod wedi ymddeol, mae Ben yn parhau i fod yn awdur toreithiog, gan lunio erthyglau, pamffledi a llyfrau. Mae ei gyfrol ddiweddaraf yn cynnwys ei sylwadau ar ei weinidogaeth dros y 60 mlynedd diwethaf hyn, yn ogystal â chasgliad o rai o'i bregethau, myfyrdodau ac anerchiadau .

Y Parch. Robert Parri oedd llywydd y noson a'r Parch. Aled Davies (Cyhoeddiadau'r Gair) oedd yr arweinydd. Roedd ffrind mynwesol i Ben a'i wraig, Meinwen, sef Norman Closs Parry, wedi llunio cerdd ardderchog am yr achlysur. Swynwyd y gynulleidfa gan gyfraniadau cerddorol grŵp o Eglwys Bethel a'r Parch. David Williams, caplan Ysbyty Alder Hey.

Cafwyd anerchiadau cryno gan Elin Boyd a'r Dr John Williams ar ran eglwysi'r cylch, a chyfeiriodd y ddau ohonynt at ddawn bregethu'r awdur a'i waith canmoladwy fel gweinidog.

Cyflwynodd Aled Davies y copi gyntaf o'r gyfrol newydd i'r awdur. Diolchodd Ben i bawb am eu cyfraniadau ac am y geiriau caredig a fynegwyd.

Ar ddiwedd y noson, mynegwyd ein dymuniadau gorau i Ben a Meinwen ar



Aled Davies, Cyhoeddiadau'r Gair, yn cyflwyno copi o'r gyfrol i'r awdur, D. Ben Rees

ddathlu eu priodas ddiemwnt ar ddiwrnod olaf mis Gorffennaf.

Roedd lluniaeth ysgafn ar gael yn dilyn y cyfarfod, a manteisiodd llawer ar y cyfle i brynu'r gyfrol sydd ar gael mewn clawr caled neu feddal; pris: £14.99 (clawr meddal).

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Twyll a gras

**Emyn 223 'Mawl fo i'r Arglwydd'**

**Darllen – Salm 105:1–10, 45**

**Gweddi**

Arglwydd Dduw, diolchwn i ti dy fod wedi datguddio i ni mai Duw ydwyt sydd yn cadw gair dy gyfamod, a'th fod yn parhau i weithio i ddwyn y greadigaeth i undod yn Iesu Grist, drwyddo ef, ac er ei fwyn. Diolchwn i ti fod dy Ysbryd yn parhau i ymsymud ar wyneb tryblith ein byd. Rhyfeddwn beunydd y cawsom ninnau ddod, drwy wahoddiad dy ras ac ymrwymiad ar sail ffydd yn Iesu Grist, yn brofiadol o'r gweithgarwch dwyfol hwn ymhlith dy bobl. Gad i ni glywed gair dy ras eto heddiw. Pâr i ni ymateb mewn ufudd-dod ffydd i ti gan fyw yn deilwng o'n proffes. Amen.

**Emyn 'Mawr dy ffyddlondeb'**

**Darllen – Genesis 29:15–28 'Jacob yn Gwasanaethu Laban am Rachel a Lea'**

Mewn cerfluniau gan Michelangelo i harddu bedd y Pab Julius II (1443–1513) darlunnir Moses ar ganol y gofeb ysblennydd gyda Rachel a Lea bob ochr iddo. Gwelir Rachel hardd ar ochr dde Moses yn syllu tua'r nef mewn osgo un sydd wedi ei bendithio. Ar ochr chwith Moses gwelir Lea yn edrych i lawr â'i llygaid 'pŵl' (adn. 17) ac osgo gwaith yn ei gwisg a'i gwedd. Roedd Rachel yn cynrychioli 'ffydd' a Lea yn cynrychioli 'gweithgarwch' ffydd – dwy elfen hanfodol i bob Cristion.

Tybed ai dyna sut rydym i ddeall yr adnodau hyn?

Ar yr olwg gyntaf, adran ydyw sy'n ymddangos fel pe bai'n llwyr amddifad o'r Efengyl, y 'newyddion da' am weithgarwch achubol Duw yn y byd. Ond a oes mwy i'r hanes nag sy'n amlwg yn syth? Ai stori ramantus am ŵr yn cwrdd â'i gariad a'i ddarpar wraig gerllaw ffynnon ydyw? (Genesis 24:42 ymlaen; Ioan 4:6–7) Ai hanes ydyw am Jacob, oedd wedi twyllo'i dad a'i frawd, ei hun yn profi blas effeithiau twyll?

### Haenau

Mae'n amlwg fod yr adran yn disgrifio diwylliant ac arferion cwbl ddieithr i ni yn y Gorllewin.

### Priodas

Ni chredwn, er enghraifft, fod 'priodas' sy'n bodoli ar sail 'trafodaeth' neu gytundeb cyfreithiol rhwng dynion a'i gilydd yn dderbyniol. Nid ydym yn caniatáu amlwreica, ac mae ein cyfreithiau'n ymdrechu i roi hawliau cyfartal i ddynion a menywod o fewn priodas. Nid 'priodas' mo perthynas ar sail gorfodaeth neu heb gydsyniad cyfartal rhwng pobl a'i gilydd.

Dylem gofio, fodd bynnag, y byddai yna wragedd heddiw, yn rhai rhannau o'r byd, a fyddai'n deall y cyd-destun diwylliannol ar un waith ac yn cydymdeimlo â safle Lea yn llwyr.

### Harddwch

Mewn byd sy'n llawn o hysbysebion yn dangos lluniau o wragedd ifanc prydferth, â llygaid disglair a gwên berffaith yn cerdded law yn llaw â phartner cyhyrog a golygus (sy'n digwydd bod yn gwisgo'r *aftershave* diweddaraf), bydd llawer o bobl (yn ferched neu'n ddynion) yn medru cydymdeimlo â Lea a'i 'llygaid pŵl'. Dyma'r rhai sy'n byw eu bywyd yng nghysgod 'Rachel', oedd 'yn osgeiddig a phrydferth', ac yn mesur eu gwerth yn ôl hynny (adn. 17).

### Diserch

Bydd eraill, efallai, yn cydymdeimlo â Lea oedd wedi ei chloi o fewn 'priodas' ddiserch, neu mewn perthynas oedd heb unrhyw gariad yn perthyn iddi. Cwynai Lea ei 'bod yn cael fy nghasáu' (adn. 33). Gallwn gydymdeimlo â'i hawydd i geisio 'plesio' ei phriod gan obeithio y bydd yr ymdrech rywsut yn ennill tiriondeb, neu barch o leiaf, neu yn y pen draw gariad hyd yn oed. Ar enedigaeth ei phlentyn cyntafanedig, Reuben, gobeithiai Lea y câi ei 'gwaradwydd' ei symud, 'ac yn awr bydd fy ngŵr yn fy ngharu' (adn. 32). Parhaodd i obeithio wedi genedigaeth ei thrydydd mab, Lefi: 'Yn awr, o'r diwedd fe unir fy ngŵr â mi, oherwydd rhoddais iddo dri mab' (adn. 34). Ond nid oes dystiolaeth i awgrymu i'w hamgylchiadau newid er cymaint ei hawydd am gyfnewidiad yn agwedd ei gŵr tuag ati.

### Heb blant

A gall miliynau o fenywod di-blant ar draws y byd gydymdeimlo ag awydd Rachel am blentyn. Dyma stori'r teuluoedd hynny sy'n llawenhau gyda'u cyfoedion ar enedigaeth plentyn iddynt, ond sydd er mwyn eu cyfeillion yn cuddio'u siom, eu hiraeth, a'u dagrau o fethu dod yn fam neu'n dad.

### Cyflog annheg a thensiwn teuluol

Bydd eraill sy'n llafurio am geiniogau am oriau meithion yn medru cydymdeimlo â Jacob a'r modd y cafodd ei dwyllo gan ei gyflogwr, ei ewythr, a'i dad yng nghyfraith, Laban, a newidiodd amodau ei gyflogaeth. Bydd eraill yn medru deall sut y gall dirmyg, siom, eiddigedd neu wawd effeithio ar berthynas pobl â'i gilydd o fewn eu teuluoedd.

Yn sydyn, daw gwahanol haenau'r hanes yn fyw wrth i ni feddwl pa mor gyfoes yw pob un o'r themâu unigol hyn.

### Parhad cyfamod

Ond mae mwy i'r hanes na hynny hyd yn oed. O ddarllen ymlaen yn yr hanes, canfyddwn yma ddechreuadau llinach deuddeg llwyth Jacob/ Israel. O'r plant niferus yma mae dau yn neilltuol yn mynd â'n sylw o fewn hanes gwaredigol yr Arglwydd.

Y cyntaf yw **Joseff**. Dyma fab i Rachel a ffefryn ei dad, Jacob. Dyma'r llanc a daflwyd i bydew, ei werthu i'r Aifft, ei gaethiwo mewn carchar, cyn dod yn brif weinidog yr Aifft. Dyma ŵr y dywedwyd sawl tro amdano fod 'yr Arglwydd gyda Joseff' ac a fedrodd egluro i'w frodyr amcanion daionus Duw ei hun: 'Yn awr, peidiwch â chyffroi na bod yn ddig wrthych eich hunain, am i chwi fy ngwerthu i'r lle hwn, oherwydd anfonodd Duw fi o'ch blaen er *mwyn diogelu bywyd* ... Anfonodd Duw fi o'ch blaen i sicrhau hil i chwi ar y ddaear, ac i gadw'n fyw o'ch plith *nifer mawr o waredigion*' (Genesis 45:5–7).

Siom Lea oedd na fedrai blesio'i gŵr. Erbyn iddi esgor ar ei phedwerydd mab, **Jwda**, roedd wedi dysgu adnabod llaw'r Arglwydd yn ei bywyd, ac roedd am i'w mab fynegi ei moliant i'r Arglwydd.

Ymhen y rhawd rhoddwyd i Jwda'r addewid am ddyfodiad Arglwydd a gwaredwr i'r byd. I **Jwda** rhoed yr addewid, 'Ni fydd y deyrnwialen yn ymadael â Jwda, na ffon y deddfwr oddi rhwng ei draed, hyd oni ddaw i Seilo; iddo ef y bydd ufudd-dod y bobloedd.' Nid dibwys yn achau Iesu Grist yw mai disgynnydd Jwda ydoedd (Mathew 1:3) ac mai iddo ef y perthyn y nerth a'r gogoniant yn oes oesoedd (Datguddiad 5:5).

### Gweddi

Arglwydd, rydym am ddiosg ein coron i'w gosod gerbron yr unig un sy'n deilwng o'r anrhydedd a'r nerth, byth bythoedd, Amen.

**Emyn 719 'O Iesu, mi addewais'**

*RWJ*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru